OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2929

## Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

**Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Cyflogaethau Enillwyr a Gyflogir at ddibenion Anafiadau Diwydiannol) 1975**

**7.**—(1) Diwygir Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Cyflogaethau Enillwyr a Gyflogir at ddibenion Anafiadau Diwydiannol) 1975(**1**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2 o Ran 1 o Atodlen 1 (cyflogaethau sydd i'w trin fel cyflogaethau enillwyr a gyflogir at ddibenion anafiadau diwydiannol), ar ôl y geiriau "Great Britain" mewnosoder "as an employee of a fire and rescue authority employed for the purposes of that authority under the Fire and Rescue Services Act 2004 or".

(3) Ym mharagraff 4 o golofn (1) o Atodlen 3 (cyflogaethau y mae personau yn cael eu trin fel cyflogwyr at ddibenion anafiadau diwydiannol ynglŷn â hwy), o flaen y geiriau "fire brigade" mewnosoder "fire and rescue authorities,".

(**1**) O.S. 1975/467 y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.